**Rhif: 46145**

Llywodraeth Cymru
Ymgynghoriad – crynodeb o'r ymatebion

# Coffáu Cyhoeddus yng Nghymru: Canllawiau i Gyrff Cyhoeddus

Mai 2023

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg hefyd / This document is also available in English
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg / We welcome correspondence and telephone calls in Welsh

OGL © Hawlfraint y Goron 2023
Digital ISBN 978-1-83504-705-7

## Trosolwg

Mae'r ddogfen hon yn rhoi crynodeb llawn o'r ymatebion i'r ymgynghoriad ar 'Coffáu Cyhoeddus yng Nghymru: Canllawiau i Gyrff Cyhoeddus'.

## Camau i'w Cymryd

Mae'r ddogfen hon er gwybodaeth yn unig.

## Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig

Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, mewn Braille neu mewn ieithoedd eraill.

## Manylion cyswllt

I gael rhagor o wybodaeth:

Cadw
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

E-bost: Cadw@llyw.cymru

## Copïau ychwanegol

Cyhoeddir y crynodeb hwn o ymatebion a chopïau o'r holl ddogfennau ymgynghori ar ffurf electronig yn unig a gellir eu gweld ar wefan Llywodraeth Cymru.

Dolen i'r dogfennau ymgynghori: Coffáu cyhoeddus yng Nghymru: canllawiau i gyrff cyhoeddus | LLYW.CYMRU

**Cyflwyniad**

1. Paratowyd Coffáu Cyhoeddus yng Nghymru: Canllawiau i Gyrff Cyhoeddus fel cam nesaf ar ôl cwblhau Y Fasnach mewn Caethweision a'r Ymerodraeth Brydeinig: Archwiliad o Goffáu yng Nghymru gan dîm dan arweiniad Gaynor Legall, ac mewn ymateb i Gynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol

2. Ei ddiben yw helpu awdurdodau lleol, cynghorau tref a chymuned a chyrff cyhoeddus eraill i ddod i benderfyniadau gwybodus am goffáu cyhoeddus nawr ac yn y dyfodol a, thrwy wneud hynny, gyfrannu at Gymru wrth-hiliol.

3. Manteisiodd y gwaith o baratoi'r canllawiau ar gyfres o weithdai wedi'u hwyluso, a ddaeth â sbectrwm eang o randdeiliaid ynghyd. Roedd y gweithdai hyn yn cynnwys cynrychiolaeth o grwpiau o bobl Dduon, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol, addysg a'r byd academaidd, llywodraeth leol, y lluoedd arfog, grwpiau ffydd, grwpiau cadwraeth treftadaeth a phobl LHDTC+.

4. Cynhaliodd Llywodraeth Cymru ymgynghoriad cyhoeddus deuddeg wythnos o hyd ar y canllawiau hyn rhwng * Hydref 2022 a 21 Chwefror 2023. Cyhoeddwyd yr ymgynghoriad ar y tudalennau ymgynghori ar wefan Llywodraeth Cymru. Bu modd i’r ymatebwyr gyflwyno eu barn a’u sylwadau ar-lein, drwy e-bost neu drwy'r post yn y Gymraeg neu’r Saesneg.

5. Cafwyd 176 o ymatebion i’r ymgynghoriad. Roedd y rhan fwyaf o'r rhain gan unigolion preifat, ond daeth ymatebion i law gan y sefydliadau canlynol:

    Cymdeithas Swyddogion Archaeolegol Llywodraeth Leol (ALGAO):Cymru

    Cyngor Tref Y Drenewydd a Llanllwchaearn

    Sipsiwn a Theithwyr Cymru

    Sefydliad Cadwraeth Adeiladau Hanesyddol

    Public Statues and Sculpture Association

    Cyngor Cymuned Brychdyn a Bretton

    Grŵp Treftadaeth Cymru


    Hepgorwyd manylion sefydliadau eraill a ofynnodd am gael bod yn ddienw.

6. Mae'r ddogfen hon yn rhoi crynodeb o'r ymatebion. Er nad yw'n cipio pob pwynt a godwyd gan yr ymatebwyr, mae'n ceisio amlinellu'r themâu a'r materion allweddol.

7. Er bod y rhan fwyaf o'r ymatebion yn gadarnhaol, roedd sawl un yn mynegi anesmwythyd am y pwnc, ac aeth nifer fechan (llai na 15%) ymhellach, gan feirniadu'r ddogfen a Llywodraeth Cymru am fod yn "woke" ac yn hiliol yn erbyn y mwyafrif Gwyn.

**Crynodeb o’r Ymatebion**

**C1: Wrth feddwl am destun y Canllawiau yn ei gyfanrwydd, a ydych chi'n meddwl y byddant yn ddefnyddiol i gyrff cyhoeddus sydd â chyfrifoldeb am goffau?** (147 o ymatebion)




| Ymateb | Nifer | Canran |
|---|---|---|
| Ydw | 83 | 56.46 |
| Nac ydw | 23 | 15.65 |
| Yn rhannol | 35 | 23.81 |
| Ddim yn gwybod | 6 | 4.08 |

**Dadansoddiad cryno**

8. Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr o'r farn y byddai'r canllawiau'n ddefnyddiol i gyrff cyhoeddus sydd â chyfrifoldeb am goffáu. Cafwyd nifer o sylwadau manwl ar faterion penodol.

9. Er bod llawer o'r ymatebwyr yn cydnabod mai nod y canllawiau yw darparu fframwaith ar gyfer gwneud penderfyniadau, roedd eraill o'r farn eu bod yn rhy ragnodol.

10. Un mater a gafodd sylw arbennig oedd pryder bod y canllawiau'n cynrychioli ymgais i ail-ysgrifennu hanes neu ddileu rhannau o'r cofnod hanesyddol drwy gyflwyno gwerthoedd cyfoes i ffigyrau a digwyddiadau hanesyddol. Roedd sawl ymatebydd yn teimlo y byddai deall gweithredoedd ac ymddygiad unigolion yng nghyd-destun eu hamser, neu ganolbwyntio ar agweddau

penodol ar yr ymddygiad sy'n cael ei goffáu yn unig yn well na chymhwyso safonau moesol cyfoes.

11. Roedd lleiafrif o'r farn na ddylid cymryd unrhyw gamau, a bod perygl i'r canllawiau achosi rhaniad lle nad oedd un yn bodoli.

12. Roedd llawer o'r ymatebwyr yn cydnabod gwerth defnyddio coffáu cyhoeddus fel cyfle i ddysgu o'r gorffennol a myfyrio ar yr hyn y gallai ei ddysgu i ni.

13. Roedd mater arall a godwyd gan nifer o'r ymatebwyr yn ymwneud â chwmpas y canllawiau: roedd rhai yn teimlo eu bod yn canolbwyntio gormod ar y gorffennol cymharol ddiweddar, ac nad oeddent yn ystyried yr ystod lawn o gyd-destunau lle mae gwahanol fathau o gaethwasiaeth wedi'u hymarfer.

14. Roedd sawl ymatebydd yn teimlo bod angen dweud rhywbeth am Gymru fel gwlad wedi'i threfedigaethu ei hun a gormes hanesyddol y Gymraeg. Awgrymodd rhai ymatebwyr nad oedd gan Gymru unrhyw gyfrifoldeb dros anghyfiawnderau a gyflawnwyd gan yr Ymerodraeth Brydeinig ac mai mater “i’r Saeson" yn unig oedd hyn.

15. Roedd eraill yn teimlo bod y ffocws ar wrth-hiliaeth yn rhy gul ac y dylid mynd i'r afael â mathau eraill o ormes (er enghraifft, ar sail dosbarth) hefyd.

16. Mynegodd sawl ymatebydd bryder bod y canllawiau'n canolbwyntio gormod ar y presennol: gan adlewyrchu hyn, awgrymodd un ymatebydd y dylid cyflwyno mecanwaith adolygu i sicrhau bod y canllawiau'n parhau'n berthnasol. Yn gysylltiedig â hyn, awgrymwyd hefyd y dylid cynnal proses adolygu ar gyfer gweithredu unrhyw gamau a gymerwyd yng ngoleuni'r canllawiau.

17. Roedd sawl ymatebydd yn teimlo bod y ddogfen yn rhy hir - roedd rhai o'r farn y byddai'n well pe bai adnoddau'n cael eu defnyddio mewn mannau eraill.

**Ymateb Llywodraeth Cymru**

18. Mae Llywodraeth Cymru yn falch bod y rhan fwyaf o'r ymatebwyr o'r farn y bydd y canllawiau'n ddefnyddiol i gyrff cyhoeddus sydd â chyfrifoldeb am goffáu ac yn ddiolchgar am y sylwadau manwl ar ffyrdd o'u gwella.

19. Byddwn yn rhoi mwy o eglurder yn y cyflwyniad i'r ddogfen, gan esbonio bod y canllawiau arfer gorau hyn yn nodi fframwaith ar gyfer gwneud penderfyniadau yn y gymuned, ac nad yw'n gwneud unrhyw argymhellion penodol ynghylch pa benderfyniadau i'w gwneud na pha gamau i'w cymryd.

20. O ran yr honiad ein bod yn ail-ysgrifennu hanes, mae Llywodraeth Cymru yn glir bod ceisio sicrhau cydbwysedd yn golygu cydnabod lluosogrwydd, caniatáu i leisiau eraill gael eu clywed ac i straeon eraill gael eu hadrodd nad ydynt yn draddodiadol wedi dominyddu. Nid ail-ysgrifennu hanes yw hyn, ond


ychwanegu at y naratif hanesyddol mewn ffordd a all ddyfnhau dealltwriaeth hanesyddol a galluogi perthynas fwy gonest â'n gorffennol. Mae'n disgwyl cydnabyddiaeth weithredol o'r hyn mae coffáu yn ei gynrychioli a pharodrwydd i fynd i'r afael â'r materion y mae'n eu codi mewn cymdeithas amrywiol sy'n ymdrechu i fod yn gymdeithas fwy cyfartal.

21. Mae'r canllawiau yn dilyn yr Archwiliad o Goffáu ac yn mynd i'r afael â cham penodol yng Nghynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol, felly mae'r fasnach mewn caethweision a'r Ymerodraeth Brydeinig yn ganolog iddo. Fodd bynnag, mae'r dull o wneud penderfyniadau y mae'n ei nodi hefyd yn ddilys wrth fynd i'r afael â materion hanesyddol eraill, a mathau eraill o goffáu. Byddwn yn diwygio'r testun i wneud hyn yn fwy eglur.

22. Mae Llywodraeth Cymru yn derbyn nad yw'r canllawiau drafft yn ddigon sensitif i gyd-destun hanesyddol penodol Cymru, sydd â'i phrofiad ei hun o drefedigaethu. Byddwn yn cydnabod hyn yn fwy clir yn y cyflwyniad i'r canllawiau a byddwn hefyd yn darparu astudiaeth achos ychwanegol sy'n tynnu ar faterion sy'n fwy penodol i Gymru. Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru yn glir na wnaeth Cymru sefyll ar wahân i gaethwasiaeth ac ecsbloetio trefedigaethol, a bod y ddau wedi'u hymgorffori yn economi a chymdeithas y genedl; mae'n iawn fod y canllawiau yn canolbwyntio ar y materion hyn.

23. Byddwn yn ystyried y ffordd orau o roi mecanwaith ar waith i adolygu perthnasedd ac effeithiolrwydd y canllawiau.

**Cwestiwn 2: Un o nodau Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol yw cyflwyno disgrifiad cytbwys, dilys ac wedi'i ddad-drefedigaethu o'r gorffennol. A ydych chi'n meddwl bod y Canllawiau'n cyfrannu at y nod?** (146 o ymatebion)




| Ymateb | Nifer | Canran |
|---|---|---|
| Ydw | 75 | 51.37 |

| | | |
|---|---|---|
| Nac ydw | 33 | 22.6 |
| Yn rhannol | 27 | 18.49 |
| Ddim yn gwybod | 11 | 7.53 |

**A oes angen unrhyw newidiadau i'r ddogfen ganllawiau er mwyn helpu i gyrraedd y nod hwn?** (Cafwyd 61 o ymatebion)

**Dadansoddiad cryno**

24. Gwnaeth llawer o'r ymatebwyr sylwadau ar fater cydbwyso gwahanol safbwyntiau. I rai, ysgogodd y cwestiwn bryderon y gallai rhai pobl a charfanau pwyso droi'r fantol, gan bwysleisio pwysigrwydd sicrhau cydbwysedd cyfartal o leisiau, cydnabod gwahaniaethau barn ac ymgysylltu â chymdeithas amrywiol Cymru.

25. Mynegodd rhai o'r ymatebwyr bryderon hefyd am gydbwysedd yn y naratif hanesyddol, gyda rhai ymatebwyr yn awgrymu unwaith eto fod perygl y gallai unrhyw olygu neu ail-ysgrifennu naratifau hanesyddol fod yn anghytbwys ac na ddylid ceisio gwneud hynny.

26. Roedd y defnydd o'r term 'dad-drefedigaethu' hefyd yn achosi rhywfaint o bryder, yn bennaf ymhlith ymatebwyr a oedd yn poeni y byddai'n golygu cael gwared ar dystiolaeth, ac yn ymgais i ail-ysgrifennu hanes. Mae'r ymadrodd 'Nid oes modd dad-drefedigaethu'r gorffennol' yn crynhoi'r pryderon hyn.

27. Gwnaeth ambell ymatebydd bwyntiau ynghylch gweithredu - yr angen i chwilio am gyfleoedd i wella sut y caiff ffeithiau hanesyddol eu cyfleu, a'r angen i nodi adnoddau a fyddai'n helpu i wneud hyn.


**Ymateb Llywodraeth Cymru**

28. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod y canllawiau ar ddulliau ymgysylltu yn darparu fframwaith digonol i reoli'r risgiau sy'n gysylltiedig ag ymgynghori, a'i nod yw sicrhau cydbwysedd rhesymol rhwng gwahanol grwpiau buddiant, gan gydnabod pwysigrwydd ymgysylltu'n drylwyr ac yn eang ar faterion yn ymwneud â choffáu cyhoeddus.

29. Mae Llywodraeth Cymru yn derbyn y gallai'r diffiniad presennol o ddad-drefedigaethu fod wedi arwain at rywfaint o ddryswch ynghylch bwriadau'r canllawiau hyn, ac y gall fod wedi ysgogi pryderon ynghylch y posibilrwydd o gael gwared ar dystiolaeth/cerfluniau hanesyddol ac ati. Felly, bydd yn darparu diffiniad mwy cyflawn a fydd yn nodi'n glir nad yw dad-drefedigaethu yn awgrymu sensoriaeth neu ddileu hanes.

30. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod y ddogfen eisoes yn pwysleisio pwysigrwydd cydbwysedd yn y naratif hanesyddol, gan argymell ychwanegu haenau newydd at y dehongliad, yn hytrach na newid un cyfrif am gyfrif arall.

**Cwestiwn 3: Mae Rhan 1 y ddogfen yn cyflwyno'r materion cymhleth sy'n ymwneud â choffáu cyhoeddus. Mae ffocws y ddogfen ar effaith coffáu ar gymunedau drwy bwnc, math, arddull a lleoliad y coffáu. A yw'n cynnig crynodeb digonol o'r materion y dylai cyrff cyhoeddus fod yn ymwybodol ohonynt wrth wneud penderfyniadau ar goffáu?** (142 o ymatebion)




| Ymateb | Nifer | Canran |
|---|---|---|
| Ydy | 75 | 52.82 |
| Nac ydy | 22 | 15.49 |
| Yn rhannol | 32 | 22.54 |
| Ddim yn gwybod | 13 | 9.15 |

**Pa newidiadau, os o gwbl, ydych chi'n meddwl y dylid eu gwneud i'r adran hon?** (Cafwyd 45 o ymatebion)

**Dadansoddiad cryno**

31. Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn teimlo bod y canllawiau'n cynnig crynodeb digonol o'r materion y dylai cyrff cyhoeddus fod yn ymwybodol ohonynt wrth wneud penderfyniadau ar goffáu cyhoeddus. Gwnaed sylwadau manwl ar nifer o bwyntiau penodol.

32. Roedd rhai ymatebwyr yn teimlo bod y canllawiau'n rhy hir ar y cyfan a bod angen symleiddio'r adran hon yn enwedig. Fodd bynnag, mynegwyd y farn hefyd fod y ddogfen yn osgoi gorsymleiddio materion cymhleth.

33. Mynegwyd hefyd nad oedd angen codi'r materion hyn ac nad oedd angen unrhyw ymyrraeth. Ysgogodd yr astudiaethau achos yn yr adran hon sawl ymatebydd i ofyn pam y defnyddiwyd enghreifftiau Americanaidd yn hytrach na rhai Prydeinig, gan awgrymu mai'r rheswm oedd nad oedd problemau yng Nghymru. Cwestiynodd sawl ymatebydd yr angen i fynd i'r afael â materion yn ymwneud â chynrychiolaeth lleiafrifoedd.

34. Roedd un ymatebydd yn poeni bod y canllawiau'n rhagdybio set o werthoedd cyffredin nad ydynt yn bodoli o bosibl, ac yn cwestiynu sut y cafodd y gwerthoedd sy'n sail i'r canllawiau eu diffinio a'u cytuno.

35. Roedd eraill yn teimlo y gallai'r canllawiau fynd ymhellach wrth drafod maint y cysylltiadau â chaethwasiaeth, ac wrth dynnu sylw at fathau eraill o anghyfiawnder. Nododd rhai ymatebwyr bynciau eraill y teimlent eu bod yn haeddu mwy o sylw: roedd y rhain yn amrywio o addysgu hanes a chyfranogiad disgyblion ysgol a'r cyhoedd, i werth esthetig henebion sy'n bodoli'n barod.

36. Roedd yna alw hefyd i gymhwyso'r egwyddorion a nodir yn y canllawiau wrth ddehongli safleoedd a lleoedd hanesyddol yn fwy cyffredinol, yn hytrach na choffáu cyhoeddus yn unig, a chyfeirio at fathau eraill o goffáu megis cofebion rhyfel, a choffáu anffurfiol megis graffiti.

**Ymateb Llywodraeth Cymru**


37. Mae Llywodraeth Cymru yn falch bod y rhan fwyaf o'r ymatebwyr o'r farn bod y canllawiau wedi nodi'r materion sy'n berthnasol i gyrff cyhoeddus wrth ystyried coffáu cyhoeddus, ac mae ganddynt ddiddordeb i glywed barn ar sut y gellid eu newid.

38. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i ddathlu amrywiaeth a symud i ddileu anghydraddoldeb o bob math. Mae coffáu cyhoeddus yn fynegiant gweladwy iawn o werthoedd eu hoes, nad ydynt bob amser yn cyfateb i werthoedd heddiw. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn y gall coffáu cyhoeddus fod yn ffordd o roi cyfrif mwy cyflawn a chytbwys o'r gorffennol, a chefnogi cyflwyniad gwerthoedd cyfoes mewn mannau cyhoeddus. Mae'r rhain yn faterion cymhleth ac mae'r canllawiau'n fanwl o reidrwydd.

39. O ran y materion penodol eraill a awgrymir i'w trafod, gwneir gwelliannau i'r canllawiau fel eu bod yn cyfeirio'n fwy clir at gamau gweithredu sydd ar y gweill mewn meysydd eraill megis addysg, ac at yr ystod o werthoedd a allai fod ynghlwm wrth goffáu cyhoeddus, gan gynnwys gwerthoedd esthetig.

40. Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod y bydd yr egwyddorion sy'n sail i'r canllawiau yn berthnasol mewn cyd-destunau eraill ar wahân i goffáu cyhoeddus fel y'u diffinnir yn y canllawiau hyn. Er y bydd pwyslais y ddogfen hon yn parhau ar goffáu cyhoeddus fel y'i diffiniwyd, bydd y cyflwyniad yn cael ei gryfhau er mwyn nodi'n glir y gallai'r egwyddorion y mae'n eu nodi fod o berthnasedd ehangach.

**Cwestiwn 4: Mae Cam 1 y Canllawiau yn ymwneud â gwneud penderfyniadau cynhwysol. Mae'n nodi rhai egwyddorion cyffredinol ar gyfer gwneud penderfyniadau cynhwysol: A ydych chi'n cytuno â'r egwyddorion hyn?** (140 o ymatebion)




| Ymateb | Nifer | Canran |
|---|---|---|
| Ydw | 77 | 55 |
| Nac ydw | 30 | 21.43 |
| Yn rhannol | 26 | 18.57 |
| Ddim yn gwybod | 7 | 5 |

**Eglurwch ym mhle, yn eich barn chi, y mae'r bylchau neu'r hepgoriadau**:
(Cafwyd 37 o ymatebion)

**Dadansoddiad cryno**

41. Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn cytuno â'r egwyddorion gwneud penderfyniadau cynhwysol a nodwyd yn y canllawiau ac yn croesawu'r pwyslais ar ymgysylltiad cynnar a gwrando ar wahanol leisiau. Mynegwyd amryw bryderon, a chodwyd cwestiynau.

42. Roedd mater cyffredinol a godwyd gan nifer o'r ymatebwyr yn ymwneud â'r angen i sicrhau cynhwysiant dilys, gan gydnabod, er enghraifft, nad yw pob rhan o gymdeithas yn rhoi eu barn yn rhwydd, gan rybuddio rhag rhoi mwy o lais i rai ar draul eraill.

43. Roedd lleiafrif o'r ymatebwyr o'r farn bod y pwyslais ar gynhwysiant yn arfer modern a fyddai'n creu rhaniad.

44. Codwyd rhai cwestiynau am gwmpas ymgysylltu, gyda sawl ymatebydd yn pwysleisio pwysigrwydd gwneud penderfyniadau lleol, a nodwyd hefyd na ddylid cyfyngu allgymorth i gymunedau sydd wedi'u diffinio fel rhai preswyl.

45. Cododd rhai ymatebwyr gwestiynau ymarferol ynghylch sut y byddai ymgynghoriadau yn cael eu hysbysebu a'u strwythuro, gan fod hyn yn un ffordd y gellid eithrio rhai grwpiau.

46. Cododd o leiaf un ymatebydd fater o amserlenni a chyllidebau hefyd.

**Ymateb Llywodraeth Cymru**

47. Mae Llywodraeth Cymru yn falch bod y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn cytuno â'r egwyddorion gwneud penderfyniadau cynhwysol a nodir yn y canllawiau, ac yn croesawu'r sylwadau penodol a wnaed.

48. Mae Llywodraeth Cymru yn credu'n gadarn ym mhwysigrwydd gwneud penderfyniadau cynhwysol fel egwyddor ac yn cydnabod yr angen am sensitifrwydd wrth gydbwyso buddiannau lleol a mwy anghysbell, yn ogystal â dod o hyd i ffyrdd o sicrhau bod yr ymgysylltiad yn ddilys. Mae'r canllawiau wedi ceisio amlygu hyn, ond byddwn yn ystyried a ellid gwneud y pwyntiau hyn yn fwy clir.

49. Mater i gyrff cyhoeddus fydd gweithredu'r canllawiau, a nhw fydd yn gyfrifol am nodi cyllidebau a gosod amserlenni ar gyfer gweithredu.

**Cwestiwn 5: Mae Cam 2 y Canllawiau yn cynnig gosod amcanion ar gyfer coffáu cyhoeddus yn unol â Chynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol: pa gyfleoedd eraill sydd ar gael i ddefnyddio coffáu cyhoeddus mewn ffordd gadarnhaol?** (Cafwyd 72 o ymatebion)

**Dadansoddiad cryno**

50. Cynigiwyd sawl awgrym cadarnhaol mewn ymateb i'r cwestiwn hwn, gan gynnwys syniadau ynghylch pwy ddylai gael eu coffáu yn y dyfodol, yn ogystal ag arsylwadau mwy cyffredinol ar sut y gellid defnyddio coffáu cyhoeddus.

51. Roedd nifer o'r ymatebwyr yn teimlo y dylid coffáu ffigyrau lleol a phobl dosbarth gweithiol, ac roedd galwadau i goffáu mwy o fenywod, a mwy o arwyr chwaraeon. Roedd galw penodol i ddathlu agweddau ar hanes Cymru, megis ei threftadaeth ddiwydiannol a'i hymdrechion hanesyddol i warchod yr iaith. Awgrymodd un ymatebydd y gellid cymharu cymunedau hanesyddol a modern, a dathlu newid cadarnhaol.

52. Teimlai nifer o'r ymatebwyr fod henebion yn cyflwyno cyfleoedd i addysgu, gyda rhai yn pwysleisio pwysigrwydd rhoi barn gytbwys ac esbonio'r cyd-destun cyfoes y gwnaed y coffáu ynddo.

53. Nododd rhai ymatebwyr y gallai proses ymgynghori leol nodi cyfleoedd gan unigolion a grwpiau ar y cyrion, ac y byddai trafodaethau gyda grwpiau crefyddol a phobl dduon ac ethnig leiafrifol hefyd yn helpu i nodi pynciau.

54. Cwestiynodd rhai ymatebwyr werth unrhyw goffáu newydd ac awgrymwyd y gallai fod ffyrdd eraill y gellid cyflawni amcanion, megis defnyddio digwyddiadau coffáu blynyddol i fyfyrio ar erchyllterau'r gorffennol a chodi ymwybyddiaeth o wahaniaethu.

55. Gwnaed y pwynt hefyd fod gofalu am safleoedd presennol yn bwysig.


**Ymateb Llywodraeth Cymru**

56. Mae Llywodraeth Cymru yn croesawu'r awgrymiadau a wnaed mewn ymateb i'r cwestiwn hwn.

57. Mae'r broses ymgysylltu a nodir yn y canllawiau yn darparu mecanwaith ar gyfer pennu a chytuno ar amcanion yn lleol, ond byddwn yn ystyried a oes cwmpas o fewn y canllawiau i gynnig mwy o enghreifftiau o bynciau a awgrymir ar gyfer eu coffáu a allai fod o gymorth wrth gychwyn trafodaethau lleol.

58. Mae llawer o'r ymatebwyr wedi codi mater cydbwysedd, a byddwn yn sicrhau bod y canllawiau'n glir ar bwysigrwydd hyn, gan gydnabod bod coffáu cyhoeddus yn fuddsoddiadau hirdymor, ac felly dylid ystyried buddiannau cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol.

**Cwestiwn 6: A yw'r meini prawf a awgrymir yng ngham 3 y Canllawiau sydd i'w defnyddio wrth wneud penderfyniadau, yn ddefnyddiol?** (138 o ymatebion)




| Ymateb | Nifer | Canran |
|---|---|---|
| Ydyn | 68 | 49.28 |
| Nac ydyn | 24 | 17.39 |
| Yn rhannol | 31 | 22.46 |
| Ddim yn gwybod | 15 | 10.87 |

**Dywedwch wrthym pa newidiadau, os o gwbl, yr hoffech eu gweld yn yr adran hon o'r canllawiau**: (27 o sylwadau)

**Dadansoddiad cryno**

59. Ychydig iawn o sylwadau manwl a gafwyd mewn ymateb i'r cwestiwn hwn, ond cafwyd rhai awgrymiadau pendant.

60. Mynegwyd rhai pryderon fod y canllawiau wedi gadael y mater hwn yn rhy annelwig a phenagored, a bod angen diffiniadau cliriach o arwyddocâd, effaith a gwerth.

61. Roedd rhai ymatebwyr yn teimlo bod pwyslais ar werthoedd yn anwybyddu rhinweddau personol y ffigyrau a oedd yn cael eu coffáu.

62. Awgrymwyd perthnasedd i le a phobl y lle fel maen prawf posibl.

63. Roedd rhai ymatebwyr yn teimlo y dylid rhoi mwy o ystyriaeth i werth esthetig coffáu presennol.


64. Cafwyd awgrym penodol y dylid defnyddio'r gwerthoedd a nodir yn Egwyddorion Cadwraeth Cadw ar gyfer rheoli amgylchedd hanesyddol Cymru yn gynaliadwy a gyhoeddwyd yn 2011 (hanesyddol, tystiolaethol, estheteg a chymunedol).

**Ymateb Llywodraeth Cymru**

65. Mae Llywodraeth Cymru yn derbyn bod angen datblygu'r adran hon rhywfaint. Er bod cytundeb lleol ar y meini prawf i'w defnyddio yn egwyddor bwysig, gallai'r canllawiau cenedlaethol hyn gynnig fframwaith mwy clir.

66. Bydd diwygiadau i'r testun yn cynnwys cyfeiriad at yr Egwyddorion Cadwraeth, gan gydnabod bod y gwerthoedd treftadaeth a nodir ynddo yn darparu fframwaith aml-ddimensiwn ar gyfer ystyried agweddau amrywiol ar bwnc.

**Cwestiwn 7: Mae cam 4 y canllawiau yn ymwneud â chymryd camau er mwyn cyflawni amcanion a mynd i'r afael â'r materion a godwyd gan goffáu cyhoeddus. Ydy'r adran hon yn ymdrin yn ddigonol â'r opsiynau sydd ar gael i gyrff cyhoeddus?** 135 o ymatebion




| Ymateb | Nifer | Canran |
|---|---|---|
| Ydy | 74 | 54.81 |
| Nac ydy | 20 | 14.81 |
| Yn rhannol | 29 | 21.48 |
| Ddim yn gwybod | 12 | 8.89 |

**Pa newidiadau, os o gwbl, a fyddech chi'n eu gwneud i'r adran hon? Oes unrhyw opsiynau pwysig ar gael i gyrff cyhoeddus sydd ddim wedi'u cynnwys yn ddigonol yma?:** (31 o ymatebion)

**Dadansoddiad cryno**

67. Awgrymodd rhai ymatebwyr y dylid cael cafeatau a fyddai'n nodi'n glir nad oedd bwriad i'r rhestr o gamau gweithredu posibl gynnwys pob un dim ac y dylai gydnabod mai dim ond o fewn cyfyngiadau cyllidebol y gellir ystyried opsiynau.

68. Ysgogodd y cwestiwn hwn fynegiant o anniddigrwydd pellach ynghylch y posibilrwydd o gael gwared ar gerfluniau.

69. Nododd un ymatebydd fod y canllawiau wedi'u gogwyddo tuag at newid yn hytrach na chynnal y sefyllfa bresennol.

70. Cwestiynodd un arall y pwyslais ar y gorffennol cymharol ddiweddar, gan dynnu sylw at y ffaith bod gan hiliaeth ei hun hanes hir

71. Roedd un ymatebydd yn teimlo y dylid ystyried opsiynau eraill ar gyfer coffáu - megis plannu coed.

72. Roedd o leiaf un ymatebydd o blaid dull sy'n ategu yn hytrach na thynnu, gan gydnabod cymhlethdod y gorffennol a'r presennol.

**Ymateb Llywodraeth Cymru**


73. Mae Llywodraeth Cymru yn falch bod y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn teimlo bod yr adran hon yn ymdrin yn ddigonol â'r opsiynau ar gyfer gweithredu sydd ar gael i gyrff cyhoeddus, ac yn croesawu'r sylwadau penodol a wnaed.

74. Mae'n cydnabod y bydd cyfyngiadau cyllidebol ar unrhyw gamau, ond mae'n parhau i fod yn ymrwymedig i bwysigrwydd cymryd camau i fynd i'r afael ag anghyfiawnderau a hepgoriadau ym maes coffáu cyhoeddus.

75. Nid yw'r canllawiau'n rhoi cyngor penodol ar ba gamau y dylid eu cymryd gan ei fod yn credu y dylai'r penderfyniadau gael eu gwneud yn lleol.

76. Byddwn yn ei gwneud yn fwy clir nad yw'r rhestr o gamau gweithredu yn cynnwys pob un dim, ac y gallai prosesau ymgysylltu lleol ddarparu fframwaith ar gyfer nodi camau posibl eraill.

**Cwestiwn 8: Ydych chi'n credu bod yr Astudiaethau Achos sydd wedi'u cynnwys yn y canllawiau yn enghreifftiau defnyddiol o'r materion a'r amryw o opsiynau sydd ar gael i gyrff cyhoeddus?** 133 o ymatebion.




| Ymateb | Nifer | Canran |
|---|---|---|
| Ydw | 77 | 57.89 |
| Nac ydw | 24 | 18.05 |
| Yn rhannol | 21 | 15.79 |
| Ddim yn gwybod | 11 | 8.27 |

**Awgrymwch unrhyw newidiadau yr hoffech eu gweld i'r rhain**: (34 o sylwadau)

**Dadansoddiad cryno**

77. Cwestiynodd rhai ymatebwyr y defnydd o astudiaethau achos o'r tu hwnt i'r DU, ac yn benodol o America.

78. Roedd sawl ymatebydd yn teimlo y dylai fod mwy o enghreifftiau o Gymru

79. Roedd rhai ymatebwyr yn teimlo bod astudiaethau achos yn gogwyddo gormod tuag at bryderon y presennol.

**Ymateb Llywodraeth Cymru**

80. Mae Llywodraeth Cymru yn falch bod y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn teimlo bod yr astudiaethau achos yn y canllawiau yn ddefnyddiol. Mae'n nodi bod rhai newidiadau wedi'u hawgrymu.

81. Barn Llywodraeth Cymru yw bod cynnwys astudiaethau achos o'r tu allan i'r DU, gan gynnwys America, yn darparu ystod o enghreifftiau nad oes gan bob un ohonynt enghraifft gyfatebol yng Nghymru neu'r DU, ond mae gan bob un ohonynt y potensial i lywio neu ysbrydoli camau yn y dyfodol yma. Mae gan yr holl astudiaethau achos fwriad cyffredin, sef tynnu sylw at agweddau dadleuol ar dreftadaeth neu agweddau sydd wedi'u hesgeuluso.

82. Mae Llywodraeth Cymru yn derbyn y byddai cynnwys mwy o enghreifftiau o Gymru yn ddefnyddiol, a bydd yn mynd i'r afael â hyn yn y testun terfynol.

**Cwestiwn 9: Hoffem wybod eich barn ar yr effeithiau y byddai'r canllawiau yn eu cael ar yr iaith Gymraeg, yn benodol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg, a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Pa effeithiau rydych chi'n credu y byddai? Sut y gellid cynyddu effeithiau positif a lliniaru effeithiau negyddol?** (80 o ymatebion)

**Cwestiwn 10: Eglurwch hefyd sut rydych chi'n credu y gellid newid y Canllawiau arfaethedig er mwyn cael effeithiau cadarnhaol neu effeithiau cadarnhaol cynyddol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, heb ddim effeithiau andwyol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.** (68 o ymatebion)

**Dadansoddiad cryno**

83. Roedd yr ymatebion i'r ddau gwestiwn hyn yn ymdrin â meysydd tebyg, ac yn nodi nifer o faterion yn ymwneud â'r Gymraeg, y mae'r rhai mwyaf cyffredin yn ymwneud â'r ffordd y mae gan yr iaith ei hanes ei hun o waharddiad; roedd rhai ymatebwyr o'r farn y dylid mynd i'r afael â hyn yn uniongyrchol yn y canllawiau ac y dylid cynnal astudiaeth achos sy'n canolbwyntio ar hanes defnyddio'r Gymraeg fel enghraifft o dreftadaeth sy'n cael ei herio.

84. Roedd rhai ymatebwyr yn teimlo y byddai gweithredu'r canllawiau drwy fwy o ddehongliadau yn creu mwy o gyfleoedd i'r Gymraeg gael ei defnyddio mewn

digwyddiadau ymgynghori ac ymgysylltu ac wrth ddehongli, gan gynnwys defnyddio testunau cyhoeddus.

85. Er eu bod yn cydnabod na ddylid trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, tynnodd sawl ymatebydd sylw at y ffaith efallai nad Cymraeg neu Saesneg fyddai'r iaith gyntaf i lawer o gymunedau yr effeithir arnynt gan goffáu cyhoeddus, a dylid manteisio hefyd ar gyfleoedd i hyrwyddo amlieithrwydd.

86. Roedd lleiafrif o'r ymatebwyr yn gwrthwynebu unrhyw ymdrech gan Lywodraeth Cymru i gydnabod neu warchod y Gymraeg, ac yn ystyried hyn yn rhagfarn yn erbyn siaradwyr uniaith Saesneg. Roedd gorgyffwrdd sylweddol rhwng yr ymatebion hyn a'r rhai a oedd yn teimlo nad oedd angen Canllawiau ar Goffáu na pholisi gwrth-hiliaeth yng Nghymru.

**Ymateb Llywodraeth Cymru**

87. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i sicrhau bod pobl yn cael y cyfle i ddefnyddio'r Gymraeg ac nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg.

88. Mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i bob corff cyhoeddus gydymffurfio â Safonau'r Gymraeg mewn materion sy'n ymwneud â darparu gwasanaethau yn Gymraeg, a ddylai gynnwys gweithgarwch ymgynghori ac ymgysylltu a darparu gwybodaeth. Byddwn yn sicrhau bod hyn yn glir yn y canllawiau.

89. Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi ymrwymo i weledigaeth amlieithog ar gyfer Cymru.

**Cwestiwn 11: Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi rhoi sylw penodol iddynt, defnyddiwch y lle hwn i'w nodi:** (50 o ymatebion)

**Dadansoddiad cryno**

90. Cafodd sawl mater a godwyd mewn ymateb i gwestiynau eraill eu codi yma eto, yn enwedig y ffaith na ddylai unrhyw beth gael ei dynnu, y dylai gweithredoedd y gorffennol gael eu deall mewn cyd-destun, na ddylem ddisgwyl perffeithrwydd moesol yn y gorffennol, y dylem 'edrych yn ôl yn ystyriol', y dylid ehangu cwmpas y canllawiau i fynd i'r afael â derbynioldeb cyffredinol anrhydeddu unigolion.

91. Roedd rhai pryderon am y broses ymgynghori ar y canllawiau drafft - pwy oedd wedi eu derbyn a pha mor helaeth oeddynt.

92. Roedd rhai pryderon hefyd am y broses ymgynghori ac ymgysylltu a hyrwyddir yn y canllawiau, gyda rhai ymatebwyr yn cwestiynu i ba raddau y byddai grwpiau yr ymgynghorwyd â nhw yn cynrychioli gwahanol gymunedau.

93. Roedd nifer o'r ymatebwyr yn teimlo bod y canllawiau'n rhy hir.

**Ymateb Llywodraeth Cymru**

94. Mae Llywodraeth Cymru yn croesawu'r pwyntiau a godwyd, gyda llawer ohonynt yn atgyfnerthu pwyntiau tebyg a wnaed mewn ymateb i gwestiynau blaenorol.

95. Ni fwriedir i'r canllawiau fod yn rhagnodol mewn perthynas â chamau gweithredu y dylid eu cymryd; dwy egwyddor allweddol yw y dylid seilio gwneud penderfyniadau ar ymgysylltiad go iawn, gyda sensitifrwydd wrth gydbwyso safbwyntiau gwahanol, ac y dylai geisio sicrhau cyfrif mwy cyflawn a chytbwys o'r gorffennol fel cyfraniad at fynd i'r afael ag anghydraddoldeb ac allgau, a gwneud Cymru'n genedl wrth-hiliol.

96. Mae Llywodraeth Cymru yn nodi mai ychydig iawn o ymatebion i'r ymgynghoriad a gafwyd gan gyrff cyhoeddus ac mae’n cydnabod yr angen i weithio gyda nhw er mwyn sicrhau bod y canllawiau'n cael eu gweithredu. Cafodd datblygiad y canllawiau eu llywio drwy ymgysylltu'n fanwl â sbectrwm eang o randdeiliaid.

97. Mae Llywodraeth Cymru yn derbyn bod hon yn ddogfen hir, ond mae'r pwnc y mae'n ymdrin ag ef yn un cymhleth, ac mae crynodeb byr wedi'i gynnwys yn y ddogfen.

-